# Cofnodion

## Cwestiynau ac Ymatebion Ffurfiol y Cyngor

Dyddiad: Dydd Llun, 15 Tachwedd 2021

1 **Cwestiwn i'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau'r Ddinas: 2021/23 - Pont Bassaleg**

**Gofynnodd y Cynghorydd C. Townsend:**

Bydd Arweinydd y Cyngor yn pryderu mai dim ond pedwar archwiliad a gofnodwyd sydd wedi'u cynnal o hen bont Bassaleg yn ystod y 32 mlynedd diwethaf. Gwn hefyd y bydd yr Arweinydd yn ddiolchgar bod y camau gweithredu uniongyrchol diweddar wedi atal anaf posibl neu golli bywyd.

Fodd bynnag, mae'n bwysig bod gwersi'n cael eu dysgu a bod mesurau'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod arolygiadau'n cael eu cynnal, eu hadrodd a'u craffu.
A all yr Arweinydd gadarnhau’r canlynol:

- Cynhelir ymchwiliad arbennig i’r gwaith o archwilio'r drefn arolygu bresennol a bod hyn yn cael ei adrodd i bwyllgorau craffu perthnasol y Cyngor yn ogystal â'r Cabinet?

- Rhoddir cynllun ar waith i atal ailadrodd, ond yn bwysicach, a fydd yn rhoi hyder i drigolion Casnewydd fod yr holl asedau a strwythurau angenrheidiol yn cael eu harolygu'n rheolaidd a’u bod yn ddiogel?

**Atebodd y Cynghorydd R. Jeavons:**

Nid wyf yn siŵr pam y mae'r Cynghorydd wedi cyfeirio at gyfnod o 32 mlynedd, gan na allaf roi sylw ar yr hyn a ddigwyddodd gryn dipyn o amser yn ôl.

Gallaf ddweud bod y bont y cyfeiriwyd ati wedi'i harchwilio yn 2018 ac yna eto, eleni, sy'n cyd-fynd â'n trefn archwilio.

Nid yw'r materion diweddar a arweiniodd at gau'r bont yn ymwneud â phroblemau gyda strwythur y bont. Mae sgwrio yn afon Ebwy wedi effeithio ar y sylfaen o dan y bont a bu'n rhaid mynd i'r afael â hynny.

Mabwysiadwyd y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd ddwy flynedd yn ôl ar ôl ymgynghori'n llawn â'r pwyllgor craffu perthnasol.